# Pontio - Dod yn Oedolyn

canllawiau i deuluoedd



Your Life Your Choices :)

Cynnwys 1

Cyflwyniad 2

Elfennau Sylfaenol Pontio 3

Cynllunio ar gyfer y Cyfnod Pontio 4

Pwy sy'n medru helpu? 5

Cyfarfodydd Adolygu'r Cyfnod Pontio 6

Cydlynwyr Pontio (neu Weithwyr Pontio Allweddol) 7

Paratoi ar gyfer Cyfarfodydd Pontio 8

Rhestr Wirio ar gyfer Cyfarfod Adolygu i Rieni a Gofalwyr 9

Rhestr Wirio ar gyfer y Cyfarfod Adolygu i'r unigolyn ifanc 10

Cytuno ar Gynllun Gweithredu yng Nghyfarfod yr Adolygiad 11

Pethau Eraill i'w Hystyried fel Rhieni neu Ofalwyr 12


Cwestiynau i helpu creu Cynllun Pontio… 13

- Addysg, Gwaith a Hyfforddiant 14
- Cael hwyl 15
- Cyfathrebu 16
- Teulu a Ffrindiau 17
- Cadw'n Ddiogel ac yn Iach 18
- Ble 'rydw i'n byw 19
- Cludiant 20
- Arian 21

Manylion Cyswllt Defnyddiol 22

# Cyflwyniad

**Mae'r canllawiau hyn i rieni a gofalwyr pobl ifanc 13 i 25 oed, ble mae gan yr unigolyn ifanc anabledd neu anghenion ychwanegol. Mae'r ystod oedran hwn yn gyfnod o newid i bobl ifanc a'u teuluoedd, ac weithiau mae'n cael ei ddisgrifio fel y Cyfnod Pontio at ddod yn Oedolyn. Weithiau, mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio at 'eich mab neu'ch merch' pan fyddwn ni'n sôn am yr unigolyn ifanc.**




Mae dod yn oedolyn yn medru bod yn gyfnod heriol i unrhyw unigolyn ifanc. Os oes gan yr unigolyn ifanc anabledd neu anghenion ychwanegol, efallai y bydd angen cymorth ychwanegol er mwyn croesi'r bont yn llwyddiannus at fod yn oedolyn.

Mae hefyd yn medru bod yn gyfnod anodd i rieni, gofalwyr ac aelodau eraill o'r teulu.

Dylai'r canllawiau hyn eich helpu i:

- Ystyried materion pwysig ynglŷn â phontio.
- Gefnogi eich mab neu'ch merch gyda'u Cynllun Pontio.
- Ddarganfod sut i gael mwy o wybodaeth ynglŷn â phontio.

Mae pob unigolyn ifanc yn wahanol, ac efallai na fydd peth o'r wybodaeth yn y canllawiau hyn yn berthnasol i sefyllfa'ch teulu chi.

Os oes gan eich mab neu'ch merch anghenion cymhleth iawn, efallai y bydd angen gwybodaeth fwy manwl arnoch i'ch helpu i gynllunio ar gyfer y Cyfnod Pontio. Mae yna restr o gysylltiadau defnyddiol ar ddiwedd y canllawiau hyn.

Mae'r canllawiau hyn i rieni a gofalwyr yn rhan o becyn gwybodaeth i deuluoedd. Mae'r pecyn hefyd yn cynnwys:

- canllawiau pobl ifanc
- copi gwag o Gynllun Pontio

Efallai y bydd rhai pobl ifanc angen Cynllun Pontio sydd â mwy o le i ysgrifennu ynddo, neu Gynllun Pontio ar fformat gwahanol. Gallwch holi'ch ysgol i weld pa fath o Gynllun Pontio fyddai orau, neu fe allech bori trwy wefan eich awdurdod lleol i weld os oes gwahanol fathau o Gynlluniau Pontio ar gael.

*Roedd yr wybodaeth yn y canllawiau hyn yn gywir adeg eu cyhoeddi.*

# Elfennau Sylfaenol Pontio


**Yn gyfreithiol, mae pob unigolyn ifanc yn y Deyrnas Unedig yn dod yn oedolyn ar ei b/phen-blwydd yn 18 oed. Ond, ni all unrhyw un ddysgu sut i fod yn oedolyn dros nos. Mae paratoi at fod yn oedolyn yn broses sy'n cymryd sawl blwyddyn.**

Mae rhai'n hoffi cynllunio ymlaen llaw, fel ffordd o baratoi ar gyfer y dyfodol. Fe allai hyn olygu meddwl am bethau sy'n anodd eu trafod, fel 'Pryd fydd fy mab neu fy merch angen gwybodaeth ynglŷn â rhyw a pherthnasoedd?'.

I rai, mae cynllunio ymlaen llaw yn anodd, ac mae'n well ganddynt aros i bethau ddigwydd. Efallai y bydd hyn yn gweithio'n iawn, ond efallai na fydd rhai pethau'n gweithio allan fel y byddech wedi ei ddymuno. Bryd hynny, efallai y bydd angen i chi ofyn am wybodaeth neu gymorth i ddatrys y sefyllfa.

Rhennir y canllawiau hyn yn adrannau fel eich bod chi'n medru meddwl am bob adran pan fydd eich teulu'n barod i ddelio gyda'r adran honno.

Mae'r adrannau yn y canllawiau hyn yn cyd-fynd â'r adrannau yn y 'Canllawiau i Bobl Ifanc'.



# Cynllunio ar gyfer y Cyfnod Pontio

## Mae Cynllunio ar gyfer y Cyfnod Pontio yn ffordd o gynllunio ymlaen llaw.

**Prif nod Cynllun Pontio yw darganfod beth sy'n bwysig i'r unigolyn ifanc nawr, ac yn y dyfodol, a'i gofnodi. Trwy feddwl am y dyfodol, mae eich mab neu'ch merch yn medru dechrau meddwl beth fydd efallai angen ei newid, a pha help fydd ei angen, wrth iddynt ddod yn oedolyn.**

## Mae rhai pethau'n haws i bobl ifanc feddwl amdanynt:

Pa ddosbarthiadau ydw i'n eu hoffi yn yr ysgol?

Beth ydw i'n hoffi ei wneud yn fy amser rhydd?

## Mae rhai pethau lawer yn anoddach i bobl ifanc feddwl amdanynt:

WBle ydw i eisiau byw pan fydda i'n oedolyn?

Pa fath o swydd fydda i'n medru ei wneud?

Sut fydda i'n teithio o le i le?

Pa arian fydd ei angen arna i?

Yn y pecyn hwn, mae'r Cynllun Pontio a ddefnyddiwn wedi ei rannu'n adrannau, fel eich bod chi a'ch mab neu'ch merch yn medru meddwl am bob adran pan fyddwch chi'n barod.

Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi ddarllen trwy'r Canllawiau hyn i Deuluoedd, o glawr i glawr, cyn i chi helpu unigolyn ifanc i gynllunio ar gyfer y Cyfnod Pontio.

Mae yna un copi gwag o Gynllun Pontio yn y pecyn hwn. Os byddwch chi angen mwy o gopïau, neu os ydych chi am ddefnyddio fersiwn gwahanol o'r Cynllun Pontio, defnyddiwch y manylion cyswllt ar ddiwedd y canllawiau hyn.



# Pwy sy'n medru helpu?

## Staff yn yr Ysgol

Os oes Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ar eich mab neu'ch merch, yna dylai'r staff yn yr ysgol helpu eich mab neu'ch merch i greu Cynllun Pontio fel rhan o'r Adolygiad Blynyddol ym mlwyddyn ysgol 9 pan fyddan nhw'n 13 neu'n 14 oed. Hyd yn oed os nad oes Datganiad o AAA ar eich mab neu'ch merch, fe allai'r ysgol ei helpu i greu Cynllun Pontio. Fe allech ofyn i'r ysgol os yw'n fodlon helpu gyda hyn.

## Cynghorydd Gyrfaoedd

Os oes gan eich mab neu'ch merch Gynghorydd Gyrfaoedd, dylai fod yn medru helpu gyda'r adrannau yn y Cynllun Pontio am Addysg a Gwaith.
Fe allech ofyn pryd fydd y Cynghorydd Gyrfaoedd yn ymweld ag ysgol eich mab neu'ch merch, ac a fydd yn edrych ar y Cynllun Pontio yn ystod yr ymweliad.

## Gweithiwr Cymdeithasol

Os oes gan eich mab neu'ch merch weithiwr cymdeithasol, yna fe fydd y gweithiwr cymdeithasol yn gweithio i gynllun y Gwasanaethau Cymdeithasol. Waeth pa gynllun ydyw, dylai fod wedi ei gysylltu at Gynllun Pontio'ch mab neu'ch merch, os oes un ganddynt. Os yw'ch mab neu'ch merch wedi gwneud eu Cynllun Pontio eu hun, fe fyddan nhw'n medru ei ddangos i'w Gweithiwr Cymdeithasol a holi os yw'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn medru ei gefnogi. Dylai'r Gweithiwr Cymdeithasol esbonio sut fydd cymorth y Gwasanaethau Cymdeithasol yn newid wrth i'ch mab neu'ch merch ddod yn oedolyn, ac a fydd unrhyw aelodau newydd o staff o Gwasanaethau Oedolion ynghlwm. Efallai y bydd angen cyfeirio eich mab neu'ch merch ar gyfer asesiad Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion: dylech holi pwy fydd yn gwneud hyn, a phryd.

## Gweithiwr Iechyd

Os oes unrhyw Weithwyr Iechyd ynghlwm â diwallu anghenion iechyd eich mab neu'ch merch, fe fydd y Gweithwyr Iechyd yn medru darllen y Cynllun Pontio a helpu gyda'r adran Iechyd. Fe fyddwch yn medru gofyn i'r Gweithiwr/Gweithwyr Iechyd esbonio sut fydd cymorth y Gwasanaeth Iechyd yn newid wrth i'ch mab neu'ch merch ddod yn oedolyn, ac a fydd unrhyw aelodau newydd o staff o Wasanaethau Oedolion ynghlwm.

## Eiriolydd

Os yw'ch mab neu'ch merch angen eiriolydd i'w helpu i gyflwyno barn, fe allai'r eiriolydd helpu eich mab neu'ch merch trwy edrych ar y Cynllun Pontio a phenderfynu pa gamau sydd angen eu cymryd i symud y cynllun yn ei flaen. Fe allwch gael gwybod mwy am Wasanaethau Eiriolaeth gan eich awdurdod lleol neu trwy holi unrhyw aelod o staff sy'n gweithio gyda'ch mab neu'ch merch.


# Cyfarfodydd Adolygu'r Cyfnod Pontio

**I bobl ifanc ag arnynt Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, mae'r Adolygiadau Blynyddol ym mlynyddoedd ysgol 9 ac uwch yn gyfarfodydd ble bydd Cynlluniau Pontio'n cael eu trafod, eu hadolygu a'u diweddaru. Weithiau, gelwir y cyfarfodydd hyn yn 'Adolygiadau Ysgol', 'Adolygiadau Datganiad' neu'n 'Adolygiadau Pontio'.**

Fel arfer, Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig neu Gydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol sy'n trefnu'r cyfarfodydd hyn.

Mae'n bwysig cael yr holl bobl iawn yn y cyfarfodydd adolygu hyn. Fe fydd yr ysgol yn trefnu'r cyfarfodydd hyn, a dylai wybod pa weithwyr proffesiynol eraill i'w gwahodd. Gan ddibynnu ar y cymorth sydd ei angen ar eich mab neu'ch merch, gellid gwahodd y canlynol:

- Eich mab neu'ch merch
- Rhieni neu ofalwyr
- Staff yr ysgol sy'n gweithio gyda'ch mab neu'ch merch
- Cynghorydd Gyrfa Cymru
- Gweithiwr Cymdeithasol*
- Gweithiwr/Gweithwyr Iechyd*
- Eiriolydd*
- Gweithiwr/Gweithwyr Cymorth*
- Cydlynydd Pontio neu Weithiwr Pontio Allweddol*



** Fe fydd y gweithwyr proffesiynol hyn yn cael eu gwahodd i'r cyfarfodydd os ydynt eisoes ynghlwm neu os allai eu cyfraniad fod yn ddefnyddiol i'r Cynllun Pontio.*

# Cydlynwyr Pontio
## (neu Weithwyr Pontio Allweddol)

**Fe fydd gan rai o'r bobl ifanc Gydlynydd Pontio neu Weithiwr Pontio Allweddol a fydd yn medru eu cefnogi wrth iddynt gynllunio ar gyfer eu Cyfnod Pontio. Y Grŵp Pontio Amlasiantaeth yn eich ardal awdurdod lleol sy'n penderfynu a yw unigolyn ifanc angen Cydlynydd Pontio ai peidio.**

Mae yna system gyfeirio a chyfres o feini prawf cymhwysedd i benderfynu pa bobl ifanc ddylai gael Cydlynydd Pontio. Fe allwch ddarganfod mwy am y system gyfeirio ar gyfer cymorth Cydlynydd Pontio trwy gysylltu â'ch awdurdod lleol neu chwilio trwy ei wefan.

Fe allai'r Cydlynydd Pontio fod yn un o'r gweithwyr proffesiynol canlynol:

- Gweithiwr Cymdeithasol, os oes un gan eich mab neu'ch merch,
- Gweithiwr Iechyd, os oes anghenion iechyd cymhleth gan eich mab neu'ch merch,
- Aelod o staff yr ysgol,
- Unrhyw weithiwr proffesiynol arall sy'n adnabod eich mab neu'ch merch yn dda.

Mae'r Grŵp Pontio Amlasiantaeth yn eich ardal awdurdod lleol yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Addysg, Gyrfa Cymru, y Gwasanaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. I bobl ifanc ag arnynt ddatganiad o AAA, mae'n ddyletswydd ar y gwasanaethau hyn i rannu gwybodaeth i sicrhau bod y bobl iawn yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd Adolygu Pontio pob unigolyn ifanc. I bobl ifanc arall sydd angen cymorth pontio amlasiantaeth, mae angen caniatâd cyn cyfeirio.

# Paratoi ar gyfer Cyfarfodydd Pontio

**Os ydych chi a'ch mab neu'ch merch am gyfrannu'n llawn at y Cyfarfod Pontio, dylech feddwl am y cyfarfod ymlaen llaw a sicrhau eich bod yn barod ar ei gyfer.**

Fe allwch ddefnyddio'r templed Beth sy'n Gweithio/Ddim yn Gweithio isod i'ch helpu i feddwl am y materion sydd angen eu trafod. Os llenwch chi'r templed hwn, fe allwch fynd ag ef i'r cyfarfod a'i ddangos i'r bobl yn y cyfarfod.

## Paratoi ar gyfer Cyfarfod Adolygu


**Beth sy'n gweithio** i'r unigolyn ifanc?



**Beth sydd ddim yn gweithio** i'r unigolyn ifanc?



**Beth sy'n gweithio** i'r rhieni neu'r gofalwyr?



**Beth sydd ddim yn gweithio** i'r rhieni neu'r gofalwyr?



# Rhestr Wirio ar gyfer Cyfarfod Adolygu i Rieni a Gofalwyr

*Fe allwch ei defnyddio i wneud nodiadau ar gyfer y cyfarfod:*

| | ✔ neu ✘ |
|---|---|
| Ydych chi'n gwybod pwy fydd yn dod i'r cyfarfod a beth fydd yn cael ei drafod? | |
| Ydych chi wedi gweld y copi diweddaraf o Gynllun Pontio eich mab neu'ch merch? | |
| A oes unrhyw sylwadau neu gwestiynau gennych ynghylch y Cynllun Pontio neu'r Datganiad, neu Gynllun Datblygu Unigol (GDU)? | |
| A oes unrhyw awgrymiadau gennych ynghylch sut i wella'r Cynllun Pontio neu'r Datganiad (neu GDU) neu sut i'w diweddaru? *Os oes, nodwch hwy yma:* | |
| A oes unrhyw faterion gennych yr hoffech eu codi yn y cyfarfod hwn? *Os oes, nodwch hwy yma:* | |
| A oes unrhyw faterion gennych yr hoffech eu codi yn y cyfarfod hwn? | |

**Dylech ddweud wrth yr ysgol os ydych yn bwriadu dod â rhywun arall i'r cyfarfod. Os oes unrhyw bryderon gennych cyn y cyfarfod, fe allech gysylltu â'r ysgol i weld os yw'n medru rhoi unrhyw wybodaeth arall i chi am y cyfarfod.**

# Rhestr Wirio ar gyfer y Cyfarfod Adolygu i'r unigolyn ifanc

*Fe allech ddefnyddio'r rhestr hon gyda'r unigolyn ifanc i'w helpu i baratoi ar gyfer y cyfarfod:*

| | ✔ neu ✘ |
|---|---|
| Wyt ti am ddod i'r cyfarfod cyfan? | |
| A fyddai'n well gennyt ddod i ran o'r cyfarfod yn unig? | |
| Wyt ti angen cymorth i dy helpu i gymryd rhan yn y cyfarfod? Pan gymorth wyt ti ei angen? | |
| Wyt ti am ddweud wrth bobl yn y cyfarfod beth sydd yn dy Gynllun Pontio? | |
| Wyt ti am i rywun arall ddweud wrth bobl yn y cyfarfod beth sydd yn dy Gynllun Pontio? Pwy sy'n gallu gwneud hyn i ti? | |
| Wyt ti'n rhoi caniatâd i gopïau o dy Gynllun Pontio gael eu rhoi i bawb yn y cyfarfod: | |
| A oes unrhyw gwestiynau gennyt am dy Gynllun Pontio neu dy gynlluniau ar gyfer y dyfodol? *Ysgrifenna dy gwestiynau yma:* | |
| A oes unrhyw gwestiynau gennyt am y ffordd y gall bobl eraill dy helpu gyda dy gynlluniau ar gyfer y dyfodol? *Ysgrifenna dy gwestiynau yma:* | |

# Cytuno ar Gynllun Gweithredu yng Nghyfarfod yr Adolygiad

**Mae'r Cynllun Gweithredu'n medru bod yn ffordd ddefnyddiol o gofnodi'r hyn sydd angen ei wneud, a sicrhau bod pobl wedi gwneud yr hyn y maen nhw wedi cytuno iddo.**

Cyn y cyfarfod, mae'n werth meddwl beth sydd angen ei gynnwys yn y Cynllun Gweithredu. Fe allech ddefnyddio'r templed isod i ysgrifennu'r camau gweithredu sydd eu hangen yn eich barn chi a'ch mab neu'ch merch. Yna, fe fydd pob un yn y cyfarfod yn medru penderfynu a ydyn nhw'n cytuno â'r camau gweithredu hyn, ac yn medru gosod dyddiad terfyn a dewis rhywun i fod yn gyfrifol am bob cam gweithredu.

## Gwneud cynllun gweithredu

| Beth sydd angen digwydd? | Pwy fydd yn gwneud hyn? | Pryd? |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

# Pethau Eraill i'w Hystyried fel Rhieni neu Ofalwyr

## Cymorth Gwasanaethau Cymdeithasol

A oes Gweithiwr Cymdeithasol gan eich mab neu'ch merch? Os na, a oes angen un arnynt neu a fydd angen un yn y dyfodol?

Os yw'ch mab neu'ch merch yn yr ysgol o hyd, efallai na fyddwch chi wedi meddwl am yr angen i gael cymorth Gweithiwr Cymdeithasol. Efallai nad ydych yn gwybod a yw'ch mab neu'ch merch yn gymwys i gael cymorth gan Weithiwr Cymdeithasol. Pan fydd eich mab neu'ch merch yn gadael yr ysgol, efallai y byddan nhw angen cymorth Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'n well cynllunio ymlaen llaw ar gyfer y posibilrwydd hwn.

Fe allwch holi'r Gwasanaethau Cymdeithasol am asesiad i weld a yw'ch mab neu'ch merch yn gymwys i gael cymorth. Mae'n werth esbonio efallai na fydd angen y cymorth hwn ar unwaith, ond efallai y bydd angen i'r Gwasanaethau Cymdeithasol fod ynghlwm â Chynllun Pontio'ch mab neu'ch merch. Fe allwch ddefnyddio'r wybodaeth gyswllt ar ddiwedd y canllawiau hyn i ofyn am gefnogaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Os yw'ch mab neu'ch merch yn cael asesiad sy'n nodi ei b/fod angen unrhyw wasanaethau gan Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, fe fydd angen asesiad ariannol o incwm a chynilion eich mab neu'ch merch, i weld os oes angen iddyn nhw dalu cyfraniad tuag at gost y gwasanaethau hyn.

## Lleoliadau Arbenigol Mewn Colegau

Os oes diddordeb gan eich mab neu'ch merch mewn addysg ôl -16 mewn coleg, a fydd yn medru cael lle ar gwrs addas mewn coleg lleol?

Dylai Cynghorydd Gyrfaoedd eich mab neu'ch merch fod yn medru rhoi gwybodaeth a chyngor ar hyn. Os yw'n edrych fel pe na bai coleg lleol yn medru darparu cwrs addas a chefnogaeth, yna efallai y gofynnir i'ch mab neu'ch merch feddwl am leoliadau coleg arbenigol.

Os ydych chi'n ystyried yr opsiwn yma, efallai y bydd angen cymorth arnoch gan bob un o'r mudiadau ynghlwm: yr Ysgol, y Gwasanaeth Addysg, Cynghorydd Gyrfa Cymru, Coleg Lleol, Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Bwrdd Iechyd. Efallai y byddwch chi hefyd angen cymorth gan wasanaeth Cynghori Rhieni fel Snap Cymru.

Mae'r broses o geisio am Leoliadau Arbenigol mewn Colegau yn gymhleth. Mae'r Cynghorydd Gyrfaoedd yn medru esbonio'r broses hon.

# Cwestiynau i helpu creu Cynllun Pontio…

**Fe allwch ddefnyddio'r rhestr o gwestiynau isod i gael syniadau wrth helpu'ch mab neu'ch merch i lenwi eu Cynllun Pontio. I rai unigolion ifanc, efallai na fydd rhai o'r cwestiynau neu'r adrannau yn berthnasol.**

Dylai'r unigolyn fod wrth galon y broses o greu Cynllun Pontio, ac nid yw'n broses sydd yr un beth i bawb. Os oes adran benodol sydd ddim yn berthnasol neu sydd angen ei diwygio, gellir newid y cynllun fel ei fod yn addas i amgylchiadau eich mab neu'ch merch.

Er enghraifft, efallai y bydd rhai unigolion ifanc am gynnwys tudalen ychwanegol ar eu hofnau a'u pryderon neu dudalen yn dangos beth sy'n gwneud 'diwrnod da' neu 'ddiwrnod gwael' iddyn nhw. Mae hyn yn medru bod yn bwysig os oes gwybodaeth ynghylch ffobiâu a sefyllfaoedd penodol sy'n atal eich mab neu'ch merch rhag wneud gweithgareddau penodol.

*Cynlluniwyd y Cynllun Pontio fel offeryn hyblyg i nodi'r wybodaeth bwysicaf i'ch mab neu'ch merch, fel eu bod yn medru ei rhannu gyda'r bobl a fydd yn gweithio gyda hwy yn ystod eu cyfnod pontio.*

Beth sy'n digwydd ar Ddiwrnod Da?


Beth sy'n digwydd ar Ddiwrnod Gwael?

Dyma fy Ngobeithion a Breuddwydion ar gyfer y dyfodol:

Dyma fy Ofnau ar gyfer y dyfodol:

# Cwestiynau i helpu creu Cynllun Pontio…

## Addysg, Gwaith a Hyfforddiant



### Ysgol

- Pryd mae'ch mab neu'ch merch yn bwriadu gadael yr ysgol?
- Pa wersi a thestunau maen nhw'n eu mwynhau?
- Pa wersi a thestunau maen nhw'n eu casáu? Pam?

Pa gymorth maen nhw'n ei gael yn yr ysgol?

- A yw'ch mab neu'ch merch angen cymorth amser egwyl ac amser cinio?
- A oes gan eich mab neu'ch merch athro/athrawes i fynd atynt gydag unrhyw broblemau?
- A oes unrhyw faterion mynediad neu fwlio yn yr ysgol?
- A yw'ch mab neu'ch merch yn medru hawlio Lwfans Cynhaliaeth Addysg (oed 16+)?
- Beth sy'n gweithio/ddim yn gweithio i'ch mab neu'ch merch yn yr ysgol?

### Coleg

- Ym mha goleg y mae gan eich mab/merch ddiddordeb? Ydyn nhw wedi ymweld ag ef?
- Ym mha gwrs y mae gan eich mab neu'ch merch ddiddordeb?
- Cludiant -sut fyddan nhw'n cyrraedd y coleg? Oes angen tocyn bws neu hyfforddiant teithio?
- A yw'ch mab neu'ch merch a'r teulu'n meddwl am goleg preswyl - Os felly, a yw Gyrfa Cymru, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwybodol o hyn?
- A yw'r teulu'n gwybod bod penderfyniadau ynghylch nawdd weithiau'n broblematig ac yn cymryd amser? Beth fydd yn digwydd os na chytunir i'r nawdd?
- Beth mae'ch mab neu'ch merch am ei wneud ar ôl gadael y coleg?
- Pa gymorth sydd ei angen yn y coleg? A fydd Gyrfa Cymru'n delio gyda hyn?
- Pryd fydd eich mab neu'ch merch yn gwybod eu bod wedi cael lle mewn coleg?
- Os yw'ch mab neu'ch merch â diddordeb mewn Coleg neu Brifysgol, a oes unrhyw Ysgolion Haf, gweithdai neu sesiynau blasu y gallant fynd iddynt?

# Cwestiynau i helpu creu Cynllun Pontio…

## Cael hwyl



- Beth mae'ch mab neu'ch merch yn ei wneud yn eu hamser hamdden? Unrhyw hoff hobïau?
- Beth maen nhw'n hoffi ei wneud gyda'r hwyr? Ar benwythnosau? Gwyliau ysgol?
- A oes well ganddyn nhw weithgareddau dan do neu awyr agored?
- Gyda phwy mae'ch mab neu'ch merch yn mwynhau treulio amser?
- Unrhyw hoff lefydd i fynd? Ar gyfer diwrnodau allan neu wyliau?
- Pa weithgareddau fyddai'ch mab neu'ch merch yn eu casáu? Pam?
- Pa gymorth sydd ei angen ar eich mab neu'ch merch?
- Beth sydd angen i bobl sy'n cefnogi eich mab neu'ch merch ei wybod?
- A yw'ch mab neu'ch merch yn aelod o unrhyw glybiau neu grwpiau?
- A yw'ch mab neu'ch merch yn chwarae chwaraeon? A fyddai'n hoffi gwneud hyn?
- A yw'ch mab neu'ch merch yn hapus yn ystod eu hamser hamdden neu a fydden nhw'n hoffi gwneud mwy?
- Pa weithgareddau fyddai'ch mab neu'ch merch yn hoffi rhoi tro arnynt yn y dyfodol?

**Cofnodwch unrhyw gamau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu**

# Cwestiynau i helpu creu Cynllun Pontio…

## Cyfathrebu



Os oes unrhyw faterion Cyfathrebu gan eich mab neu'ch merch y mae angen i bobl eraill wybod amdanynt, fe allwch gynnwys gwybodaeth amdanynt yn yr adran hon. Os na, fe allwch adael yr adran hon yn wag a symud ymlaen at yr adran nesaf.

Enghreifftiau o wybodaeth ynghylch Cyfathrebu y dylid ei chynnwys:

- Offer arbenigol i helpu cyfathrebu: Cymhorthion clyw; Cymhorthion golwg, Dyfeisiau Arbenigol.
- Anghenion iaith arbenigol: Iaith Arwyddion Prydain; Ieithoedd heblaw am y Gymraeg/Saesneg.
- Mewnbwn Seicoleg neu Therapi Iaith a Lleferydd - a oes angen cyfeiriad?
- Mewnbwn gan y gwasanaeth Nam ar y Golwg neu Nam ar y Clyw. A oes angen unrhyw gyfeiriadau at y gwasanaethau hyn?
- A yw'ch mab neu'ch merch yn deall beth sy'n cael ei esbonio iddynt? Ydyn nhw'n dueddol o gytuno gyda phopeth hyd yn oed pan na fyddan nhw'n deall? Sut all bobl wybod bod yr unigolyn ifanc wedi deall mewn gwirionedd?
- A yw'ch mab neu'ch merch angen cymorth i gyfathrebu barn? A oes angen eiriolydd neu gefnogwr? Pwy sy'n medru bod yn eiriolydd drostynt neu eu cefnogi?
- Os oes gan eich mab neu'ch merch faterion cyfathrebu cymhleth, er enghraifft ymddygiad cymhleth sy'n gysylltiedig â chyfathrebu, efallai bod angen Pasbort Cyfathrebu. Holwch am hyn yn y cyfarfod Adolygu nesaf

**Os oes angen unrhyw gamau gweithredu pellach, cofnodwch hwy yn y Cynllun Gweithredu?**

# Cwestiynau i helpu creu Cynllun Pontio…

## Teulu a Ffrindiau



### Y Teulu

- Pwy yw prif aelodau'r teulu?
- Y Sefyllfa yn y Cartref- gyda phwy y mae'ch mab neu'ch merch yn byw?
- Sefyllfa'r teulu - Teulu genedigol, Teulu estynedig, Teulu maeth ayb. A oes unrhyw faterion pwysig y dylid sôn amdanynt? Pwy sydd â Chyfrifoldeb Rhiant?
- Sut mae'ch mab neu'ch merch yn cadw mewn cysylltiad ag aelodau'r teulu?
- Teulu'r dyfodol - syniadau eich mab neu'ch merch am y dyfodol - ydyn nhw am briodi/gael teulu eu hunain?
- Pa gymorth mae'ch mab neu'ch merch yn ei gael gan aelodau'r teulu?
- A oes unrhyw beth a allai newid ynghylch y ffordd y rhoddir y cymorth hwn gan y teulu?

### Ffrindiau

- Pwy yw ffrindiau'ch mab neu'ch merch?
- A yw'ch mab neu'ch merch eisiau ffrindiau newydd?
- Syniadau ar gyfer gwneud ffrindiau? Clybiau / Hobïau / Gweithiwr Cymorth
- Sut mae'ch mab neu'ch merch yn treulio amser gyda ffrindiau?
- Ble mae'ch mab neu'ch merch yn medru cwrdd â ffrindiau neu ymweld â ffrindiau?
- Pa gymorth sydd ei angen i weld ffrindiau?
- Pa gymorth sydd ei angen gyda chy-fathrebu a rhyngweithio?
- A yw'ch mab neu'ch merch yn dod ymlaen gyda'i grŵp cyfoedion?
- Oes well ganddo/ganddi fod ar ei b/phen ei hun neu yng nghwmni staff neu oedolion?
- A oes unrhyw faterion bwlio?
- A oes angen hyfforddiant ar sgiliau cymdeithasol?

# Cwestiynau i helpu creu Cynllun Pontio…

## Cadw'n Ddiogel ac yn Iach



### Meddygol

- A oes gan eich mab neu'ch merch unrhyw Gyflyrau Iechyd sylweddol sydd angen meddyginiaeth, sylw neu driniaeth?
- Pa weithwyr iechyd proffesiynol sydd ynghlwm?
- A yw'ch mab neu'ch merch angen cymorth i fynd i apwyntiadau iechyd?
- A fydd eich mab neu'ch merch angen cymorth iechyd arbenigol parhaus wrth dyfu'n oedolyn? Pwy sy'n cydlynu'r cymorth iechyd hwn?

### Diet, Ymarfer Corff a Maeth

- A oes unrhyw fwydydd/diodydd sy'n arbennig o bwysig ac sy'n rhan o'u harfer bob dydd?
- Unrhyw alergeddau? Camau i'w cymryd os yw'ch mab/merch yn cael adwaith alergedd?
- Ymarfer Corff? Beth mae'ch mab neu'ch merch yn ei wneud i gadw'n iach ac yn actif?

### Diogelwch Bob Dydd

- A yw'ch mab neu'ch merch yn gwybod sut i gadw'n ddiogel yn gyhoeddus? - cludiant a diogelwch ar y ffordd, peryglon pobl ddieithr.
- A yw'ch mab neu'ch merch yn medru adnabod sefyllfaoedd a gwrthrychau peryglus?

### Lles Meddyliol

- Beth sy'n rhoi straen ar eich mab neu'ch merch neu'n gwneud iddynt deimlo'n grac? Sut maen nhw'n dangos eu bod yn grac?
- A yw'ch mab neu'ch merch yn medru adnabod sefyllfaoedd a gwrthrychau peryglus?

### Arweiniad ar Ryw a Pherthnasoedd

- A yw'ch mab neu'ch merch wedi cael unrhyw arweiniad ynghylch rhyw a pherthnasoedd?
- Oes angen arweiniad pellach?

# Cwestiynau i helpu creu Cynllun Pontio…

## Ble ‘rydw i’n byw



- Ble mae’ch mab neu’ch merch yn byw nawr? Gyda phwy maen nhw’n byw?
- Beth mae’ch mab neu’ch merch yn ei hoffi/casáu am y lle ble mae’n byw nawr?
- A oes gan eich mab neu’ch merch unrhyw syniadau ynghylch ble’r hoffai fyw yn y dyfodol a gyda phwy?
- A fyddan nhw angen cymorth? Pa gymorth fydd ei angen arnynt?
- A fyddan nhw angen cyngor ar gymorth ariannol ac opsiynau tai?
- A yw’ch mab neu’ch merch angen unrhyw gymhorthion ac addasiadau yn y tŷ? (Nawr, neu yn y dyfodol?)
- A yw’ch mab neu’ch merch angen asesiad gan Therapydd Galwedigaethol?

A yw’ch mab neu’ch merch am fyw’n annibynnol? A fydd angen hyfforddiant ar sgiliau byw’n annibynnol?

- A yw’ch mab neu’ch merch yn Derbyn Gofal? Os felly, a oes angen ystyried Lleoliad Oedolyn neu Lety â Chymorth?
- A yw’ch mab neu’ch merch yn ystyried Coleg preswyl? Os felly, i ble fyddan nhw’n mynd i fyw ar ôl Coleg, a sut fyddan nhw’n cynnal eu sgiliau byw’n annibynnol?

**Cofnodwch unrhyw gamau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu**

# Cwestiynau i helpu creu Cynllun Pontio…

## Cludiant



- Sut mae'ch mab neu'ch merch yn teithio o le i le ar hyn o bryd?
- A oes gan eich mab neu'ch merch unrhyw sgiliau diogelwch ar y ffordd?
- A oes unrhyw beth sydd angen i bobl ei wybod am eich mab neu'ch merch pan fydd yn mynd o le i le?
- A yw'ch mab neu'ch merch yn medru mynd o le i le'n annibynnol?
- Pa nodau sydd gan eich mab neu'ch merch ar gyfer y dyfodol mewn perthynas â mynd o le i le?
- A yw'ch mab neu'ch merch angen hyfforddiant teithio ac a yw hyn ar gael?
- A oes gan eich mab neu'ch merch docyn bws/trên a thocyn +1 i ofalwr, neu a oes angen y rhain?
- A yw'ch mab neu'ch merch angen gweithio ar beryglon dieithriaid?
- A yw'ch mab neu'ch merch yn cael Lwfans Byw i'r Anabl? - oes angen iddyn nhw hawlio?
- A oes bathodyn glas ganddynt?
- Ydyn nhw'n defnyddio tacsis arbenigol? Os felly, a oes cwmni/gyrrwr penodol y maen nhw'n hoffi eu defnyddio? Ydyn nhw angen hebryngydd?
- A yw'ch mab neu'ch merch angen asesiad risg i deithio?

A oes gan eich mab neu'ch merch unrhyw anghenion cymorth gyda mynediad at gludiant neu deithio?

- A oes gan eich mab neu'ch merch unrhyw bryderon ynghylch teithio o gwmpas?

**Cofnodwch unrhyw gamau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu**

# Cwestiynau i helpu creu Cynllun Pontio…

## Arian



### Ymdopi gydag arian

- Cynilo - a yw'ch mab neu'ch merch yn cynilo - at beth mae'n cynilo?
- Gwario – a yw'ch mab neu'ch merch yn hoffi gwario'u harian ar unwaith?
- A yw'ch mab neu'ch merch yn medru adnabod papurau arian a darnau arian?
- A yw'ch mab neu'ch merch yn medru gwirio newid?
- A yw'ch mab neu'ch merch yn medru gwirio newid?

### Rheoli cyfrif banc

- A oes gan eich mab neu'ch merch gyfrif banc?
- A yw'ch mab neu'ch merch eisiau cyfrif banc?
- Pwy sy'n medru cefnogi eich mab neu'ch merch i agor cyfrif banc?

### Cymorth ariannol

- A yw'ch mab neu'ch merch angen gwybod unrhyw beth am gymorth ariannol?
  - Lwfans Cynhaliaeth Addysg - i fyfyrwyr 16+ gyda rhieni ar incwm is.
  - Lwfansau hyfforddiant - i bobl ifanc ar rai cyrsiau hyfforddiant penodol.
  - Os yw'ch mab neu'ch merch yn cael cymorth Gwasanaethau Cymdeithasol, a yw'n gwybod am Daliadau Uniongyrchol?
- A oes gan eich mab neu'ch merch unrhyw bryderon ynghylch arian?
- Oes angen gwiriad budd-daliadau neu gyngor ar eich teulu? Mae'n werth gwneud hyn cyn i'ch mab neu'ch merch hawlio o'r newydd am fudd-daliadau.

Mae'r system Budd-daliadau Lles yn gymhleth ac yn medru newid. I rai pobl ifanc sydd ag anableddau, mae'n bwysig cael cyngor ar fudd-daliadau gan arbenigwr, yn enwedig pan fydd yn agosáu at 16 oed. Mae cyngor ar fudd-daliadau ar gael gan Cyngor ar Bopeth neu Cyswllt Teulu Cymru.

# Manylion Cyswllt Defnyddiol

**Os ydych chi am ddarganfod mwy am Gymorth Pontio i bobl ifanc ag anableddau neu anghenion ychwanegol, neu gyfeirio ar gyfer cymorth Gwasanaethau Cymdeithasol, cysylltwch â'ch cyngor lleol gan ddefnyddio'r manylion canlynol:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Blaenau Gwent<br>Y Ganolfan Ddinesig<br>Glyn Ebwy, NP23 6XB | 01495 311556<br>info@blaenau-gwent.gov.uk<br>www.blaenau-gwent.gov.uk |
| Cyngor Caerffili<br>Tŷ Penallta, Parc Tredomen,<br>Ystrad Mynach, CF82 7PG | 01443 815588<br>info@caerphilly.gov.uk<br>www.caerphilly.gov.uk |
| Cyngor Sir Fynwy<br>Tŷ Arloesi, Blwch Post 106,<br>Cil-y-coed, NP26 9AN | 01633 644644<br>contact@monmouthshire.gov.uk<br>www.monmouthshire.gov.uk |
| Cyngor Casnewydd<br>Y Ganolfan Ddinesig<br>Casnewydd, NP20 4UR | 01633 656656<br>info@newport.gov.uk<br>www.newport.gov.uk |
| Cyngor Torfaen<br>Y Ganolfan Ddinesig,<br>Pont-y-pŵl, NP4 6YB | 01495 762200<br>your.call@torfaen.gov.uk<br>www.torfaen.gov.uk |
| Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan<br>Tŷ Mamhilad, Bloc A<br>Ystad Parc Mamhilad, NP4 0YP | 01873 732732<br>abhb.enquiries@wales.nhs.uk |
| Gyrfa Cymru<br>Uned 1, Brecon Court, Parc Llantarnam,<br>Cwmbrân NP44 3AB | 0800 028 9212<br>info@careerswalesgwent.org.uk<br>www.gyrfacymru.com |
| Snap Cymru<br>10 Coopers Yard, Ffordd Curran<br>Caerdydd CF10 5NB | 02920 384868<br>headoffice@snapcymru.org<br>www.snapcymru.org |
| Coleg Gwent<br>Y Rhadyr, Brynbuga<br>NP15 1XJ | 01495 333333<br>info@coleggwent.ac.uk<br>www.coleggwent.ac.uk |
| Cyswllt Teulu Cymru<br>33-35 Heol y Gadeirlan<br>Caerdydd CF11 9HB | 0808 808 3555<br>helpline@cafamily.org.uk<br>www.cafamily.org.uk |

Cynhyrchwyd yr wybodaeth yn y pecyn hwn gan Brosiect Pontio Your Life Your Choices, ac roedd yn gywir adeg argraffu.
Cynhaliwyd Prosiect Pontio Your Life Your Choices gan Gyngor Sir Fynwy o fis Mawrth 2009 tan fis Mawrth 2011, ac fe'i cynhaliwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ers mis Ebrill 2011.
Ariennir y Prosiect hwn gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop.